

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Monk Street, y Fenni, Sir Fynwy)
(Gwahardd Cerddwyr Dros Dro)
2021**

**The A40 Trunk Road (Monk Street,
Abergavenny, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of
Pedestrians) Order 2021**

Gwnaed 17 Medi 2021

Made 17 September 2021

Yn dod i rym 24 Medi 2021

Coming into force 24 September 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd pob cerddwr ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that all pedestrians on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Monk Street, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerddwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Medi 2021.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Monk Street, Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Pedestrians) Order 2021 and this Order comes into force on 24 September 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 24 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Raglan to Llandovery trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r droetffordd sy'n gyfagos i gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Lôn Beili Priory hyd at Fwyty Indiaidd Sundarban yn Monk Street, y Fenni, Sir Fynwy.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 07:30 hours on 24 September 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the footway adjacent to the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with Beili Priory Lane to the Sundarban Indian Restaurant at Monk Street, Abergavenny, Monmouthshire.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

17 September 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government